E. NAMORA WILLIAMS yn pori mewn

# Dyddiadur gwladwr rhwng rhyfeloedd

YMHLITH y trysorau a geir yn Archifdy Gwynedd yng Nghaernarfon mae copiau o ddyddiaduron a nodiadau a ysgrifennwyd gan Ellis Roberts, o ffermdy'r Clogwyn, Nantmor, Beddgelert, o ddiwedd y dauddegau hyd at ei farw yn 1943. Cyflwynwyd y dyddiaduron i'r Archifdy gan Mr Owen Charles Hughes o Lanbedrog ychydig cyn ei farw yntau eleni.

Bu Mr Hughes yn cartrefu yn y Clogwyn o 1913 tan 1923, pan ymadawodd â'r ardal i weithio yn un o lofeydd y de, ond yn 1925 dychwelodd i Arfon i ymgartrefu yn Nantgwynant, lle priododd Barbara Owen, merch a anwyd yn Iwerddon.

Trwy'r blynyddoedd, cadwodd Owen Charles mewn cysylltiad agos â'r Clogwyn, lle'r edrychid arno fel mab, ac 'rydym yn ddyledus iddo, nid yn unig am werthfawrogi arbenigrwydd cofnodion Ellis Roberts, ond hefyd am wneud rhai nodiadau o'i eiddo ei hun, nodiadau sydd yn ychwanegu at ein gwybodaeth am fywyd yn y Clogwyn yn rhan gyntaf y ganrif, ac am y gymdeithas a fodolai o gwmpas y ffarm fynyddig yn ystod y cyfnod.

Mab ydoedd Ellis Roberts i William ac Alice Roberts, ei dad yn un o hen deulu y Clogwyn, eu cartref am tua dau can mlynedd, a'i fam yn ferch i ffarm gyfagos, y Corlwyni.

Ffarm fechan anghysbell ac unig yw'r Clogwyn (neu Coed Maes Ednyfed, yn ôl yr hen enw), un o'r hen ddaliadau mynyddig, a'i dir yn ymestyn o waelod dyffryn ac afon Nantmor ar y gwastadedd hyd at ucheldir Mynydd Nantmor, lle porai'r gwartheg yn y Foty yn ystod yr haf, a lle'r oedd cynefin 133 o ddefaid yn ôl y cyfrif a wnaed yn 1912, pan oedd y ffarm bellach yn rhan o ystad Hafodgarregog.

Mae dyddiaduron Ellis Roberts yn cyfeirio at enwau lleoedd megis Pant Ceffylau, Waen-y-Gaseg, Cae Castell, Braich-bryn-helm, Craig-y-gwynt, Llys Ednyfed a'r Arlais, sydd bellach wedi mynd yn angóf, ac eraill fel Maen-Pres sydd eto yn dynodi bryncyn yn y dyffryn ar ffiniau tir Dolfriog.

Mae'r mynych gyfeiriadau at gartrefi Blaen Nantmor, megis Hafodydd Brithion, Buarthau, Berthlwyd, Gelli Iago, Gerynt, Fedw Bach, Hafod Owen a Than-rhiw, a'r teuluoedd a oedd yn trigo ynddynt, yn dangos cymaint oedd y tramwyo o'r naill fan i'r llall, a'r gymdogaeth dda a ffynnai yno, mewn cyfnod pan oedd pob ffarmwr a bugail yn dibynnu'n helaeth ar ewyllys da ei gymdogion am gymorth a chyngor mewn argyfwng.

'Roedd Ellis yn un o saith o blant, sef William, John, Richard, Robert, Ellis, Catherine (neu Kate) a Mary. Fe'i ganed yn 1872, ac wedi cyfnod yn ysgol Nantmor dan William Harrison, bu'n gweini ar rai o ffermwydd Cwm Pennant, ac ym Mwlch Mwrchan, Nantgwynant. Bu wedyn yn gweithio yn chwarel yr Oakley, Blaenau Ffestiniog, gan gerdded yn ôl ac ymlaen gyda mintai o ddynion Blaen Nanmor, ond pan fu farw ei dad yn 1892, gorfu iddo aros gartref, ac yno y bu bron am weddill ei oes.

Yno hefyd y cartrefai ei chwaer Mary, a enillai ei thamaid fel gwniadreg o gwmpas yr ardal, gan aros yma ac acw fel y byddai'r gwaith yn galw, yn ôl arfer y cyfnod.

* * *

'ROEDD ar Ellis angen gwraig i edrych ar ôl ei gartref unig, ac ar 26 Mai, 1903, priododd Agnes Maud Pearce, un o gyffiniau Penrhyn Gŵyr, a ddaeth i'r ardal i wasanaethu fel cogyddes ym Mhlas Aberglaslyn. Dywed Owen Charles i'r ddau gyfarfod â'i gilydd ar bont Aberglaslyn, un o gyrchfannau traddodiadol ieuenctid y fro.

Saesnes uniaith oedd Agnes, na wnaeth erioed fawr o ymdrech i ddysgu Cymraeg, ac mae'n debyg i'r briodas achosi cryn syndod a sgwrsio ymhlith trigolion Nantmor. Yn groes i bob disgwyliad, fodd bynnag, bu'r briodas yn un hynod o hapus, er i'r naill ddal at ei Gymraeg, a'r llall at ei Saesneg.

'Roedd Agnes yn garedig a chroesawus, ac yn dda ei llaw fel gwraig tŷ ac fel gwraig ffarm – 'y tŷ yn daclus bob amser, lle i bopeth a phopeth yn ei le', a phob pryd bwyd yn ei amser, pob dydd wedi ei benodi i bob gorchwyl, fel golchi dydd Llun, corddi dydd Mawrth, ac felly ymlaen.

Saif Tŷ'r Clogwyn â'i wyneb at y dyffryn a'r afon, a'i gefn at fynydd Nantmor, ei furiau o feini cadarn tua dwy droedfedd o led, a ffenestri bychain. Ystafell fyw, cegin a pharlwr ar y llawr, a thair ystafell wely i fyny'r grisiau.

Hyd yn oed heddiw nid oes ffordd yn rhedeg ar gyfyl y tŷ, ac nid oes modd ei gyrraedd o bentref Nantmor, tua dwy filltir a hanner o bellter, heb ddringo llwybr troellog a charegog sy'n arwain heibio i ffermydd y Carneddi a'r Corlwyni, neu trwy gymryd y ffordd i gyfeiriad Blaen Nantmor heibio Bwlchgwernog a Than-rhiw, ac yna croesi'r afon dros bont troed drwy'r Gelli nes dringo'r allt goediog dros y Bylchau cyn dod i olwg y tŷ.

Nid oedd yno na cheffyl na throl, a rhaid oedd cario popeth at anghenion y tŷ a'r teulu a'r anifeiliaid ar gefn y rhai oedd yn byw yno. Hyd yn oed pan ddaeth ambell i "Ffordyn' i ffermydd yr ardal tua 1927, roedd yn rhaid i deulu'r Clogwyn gerdded i lawr at Tan-rhiw, neu i bentref Nantmor cyn iddynt allu manteisio ar y cyfle i gael eu codi i gerbyd cymydog caredig.

* * *

FELLY, bu'r Clogwyn yn lle unig a diarffordd erioed, ac efallai fod yr arwahanrwydd yma wedi effeithio ar ysbryd y teulu a drigai yno, gan fagu rhyw ymwybyddiaeth o'r anweledig, a throi eu meddyliau at bethau'r byd arall.

Am bedair cenhedlaeth, sef o'r cyfnod ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif pan sefydlwyd yr achos Methodistaidd yn ardal Nantmor, bu teulu'r Clogwyn ymhlith yr arweinwyr mwyaf selog. Yn ôl William Hobley, yn ei **'Hanes Methodistiaeth Sir Gaernarfon'** yr oedd enw Robert Roberts, Clogwyn, a fu farw yn 1814 'yn ofn i weithredwyr drwg', a chredai ei fab yng nghyfraith, William, 'nad oedd raid i neb golli dim wrth fyned i foddion gras'.

Roedd tad Ellis Roberts, sef William arall, yn "un defosiynol ei ysbryd, ac yn unplyg a phenderfynol ... yn gynghorydd medrus ... yn ddirwestwr selog."

Gyda'r fath dras, nid rhyfedd i Ellis Roberts ddilyn yr un llwybrau, a'u dilyn yn llythrennol hefyd wrth ymlwybro yn ôl a blaen i'r capel yn Nantmor ar y Sul trwy bob tywydd, ac i'r moddion ar ganol yr wythnos, ar ôl diwrnod caled o waith. Er na chafodd erioed am ryw reswm esgyn i Sêt Fawr Capel Peniel, bu'n athro yn yr Ysgol Sul am flynyddoedd, ac yn drysorydd y rhanbarth gyda chasgliad Cymdeithas y Beiblau am gyfnod maith.

Yn naturiol 'roedd yn ddirwestwr cadarn, a chodai ofn ar fechgyn diniwed yr ardal pe deuai ar eu traws yn ysmygu. Nid oedd ganddo'r ddawn i siarad yn gyhoeddus, ac nid oedd yn ddiwinydd fel rhai o'i hynafiaid, er ei fod yn hoff o ddarllen cyfrolau diwinyddol.

Efallai fod Ellis Roberts yn ymddangos fel Piwritan sych a chul, ond, yn ôl ysgrif Carneddog a fu yn gymydog agos iddo "meddai ar galon dyner, a'i llond o garedigrwydd a chymwynasgarwch", ac mae'n amlwg ei fod yn ŵr hoffus, gyda rhyw ddireidi tawel yn fflachio i'r wyneb yn awr ac yn y man.

Er eu bod yn hoff o blant, yn anffodus ni chafodd Ellis ac Agnes blant eu hunain i etifeddu'r hen gartref, ac mae'n debyg iddynt ofidio o'r herwydd, wrth weld hen linach y Clogwyn yn darfod, ond gyda'r ysbryd ymarferol a nodweddai y ddau, penderfynwyd mai da o beth fyddai cael cymorth rhywun ieuengach i ysgwyddo'r baich. Felly, yn ôl Owen Charles Hughes, "penderfynwyd gwneud archeb am fachgen neu eneth".

Efallai fod y Maud Ellen Pierce a gofrestrwyd ar lyfrau ysgol Nantmor yn 1912, yn ddeuddeg oed, yn perthyn i deulu Agnes, ond "yn 1913, Awst 20fed, daeth Mrs R.R. Morris (priod gweinidog y Tabernacl, Blaenau Ffestiniog) yma efo bachgen o'r enw Owen Charles Hughes, bachgen amddifad dan ofal pwyllgor y byrddio allan, y gwarcheidwaid, telerau 3/6 yr wythnos am ei fagwraeth, a tua £2 y flwyddyn am ei ddillad – Ganwyd ef Ebrill 1af, 1904."

Wedi teithio ar y trên o Ffestiniog i Benrhyndeudraeth, a cherdded oddi yno i'r Clogwyn, "siwrnei faith flin, ac heb weled fawr neb ar hyd y ffordd ond ambell i ddyn yn malu cerrig i atgyweirio y ffordd", cyrhaeddodd Owen Charles y Clogwyn, ac ni fu'r un bachgen amddifad erioed mor ffodus yn ei 'rieni' newydd, na hwythau yn eu mab mabwysiedig.

Yn fuan iawn, gwnaeth Owen Charles le cynnes iddo'i hun ar yr aelwyd, a daeth yntau i adnabod pob modfedd o'i amgylchedd newydd ac i gydnabod yn ddiolchgar y gofal a dderbyniodd ar law Ellis ac Agnes.

* * *

GAN I'R arbrawf fod mor llwyddiannus, ymhen dwy flynedd, gwnaed "archeb" eto, a'r tro hyn, daeth Mrs Pryce Ellis, priod gweinidog capel Beddgelert, a merch o'r enw Maggie Ellen Jones, o Garn Dolbenmaen yno, yn naw oed.

Yn ddiweddarach daeth tri phlentyn arall yno, yr olaf ohonynt, Gough Williams, yn un ar ddeg oed yn 1925, wedi i Owen Charles fynd oddi cartref. Yn ôl Owen Charles, cafodd y plant lond tŷ o groeso os nad

*Trosodd*